

2023










# Tir na n-Og

GWOBRAU • AWARDS

## Pecyn Cynllun Cysgodi

Gwobrau Tir na n-Og 2023


Categori Cynradd

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Llyfrau'r Rhestr Fer | 2 |
| Sbardun Sgwrs: | 3 |
| Cwestiynau a phwyntiau i sbarduno trafodaeth | |
| Sbardun Syniadau: | 4 |
| Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg | |
| Adnabod Awdur | |
| Tîm Dros y Môr a'r Mynyddoedd | 7 |
| Luned Aaron | 9 |
| Manon Steffan Ros | 11 |
| Adnabod Darlunydd | |
| Elin Manon | 13 |
| Huw Aaron | 15 |
| Valériane Leblond | 16 |
| Y Beirniaid | 17 |
| Sylwadau'r Beirniaid | 18 |
| Tudalen Nodiadau | 21 |
| Matrics Sgorio | 22 |
| Cardiau Pleidleisio | 23 |
| Chwilair | 24 |


#CaruDarllen

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES





**Dros y Môr a'r Mynyddoedd – Straeon Merched Dewr y Celtiaid**

*Ffuglen Hanesyddol Bywgraffyddol*

Awduron: Aneirin Karadog, Anni Llŷn, Angharad Tomos, Mari George, Haf Llewelyn, Branwen Williams a Myrddin ap Dafydd
Darlunydd: Elin Manon
(Gwasg Carreg Gwalch)

Dyma gasgliad o bymtheg stori Geltaidd lle mae merched cryf a dewr yn serennu. Teithiwch i wledydd pell ac agos, dros y môr a'r mynyddoedd gwyllt, a dilynwch y prif gymeriadau wrth iddyn nhw ddangos eu cryfder, eu cariad a'u cyfeillgarwch. Mae pawb yn rhyfeddu at y merched – gobeithio y byddwch chi'n rhyfeddu hefyd!

---





**Dwi Eisiau Bod yn Ddeinosor**

*Ffuglen*

Awdur: Luned Aaron
Darlunydd: Huw Aaron
(Atebol)

Dyma lyfr stori-a-llun sy'n llawn hwyl a dychymyg. Mae'r prif gymeriad eisiau bod yn ddeinosor … neu'n grocodeil … neu'n bengwin! Ond yn sydyn iawn mae'n sylweddoli ei fod yn unigryw. Does neb yn debyg iddo, a dyma beth sy'n ei wneud yn unigryw ac arbennig. Dyma i chi stori chwareus sy'n llawn hwyl a chreadigrwydd!

---





**Enwogion o Fri: Nye – Bywyd Angerddol Aneurin Bevan**


*Llyfr Ffeithiol Bywgraffiad*


Awdur: Manon Steffan Ros
Darlunydd: Valériane Leblond
(Broga)

Dyma stori un o'r gwleidyddion pwysicaf yn hanes Prydain. Ynddi cawn gwrdd â Nye, bachgen swil o Dredegar. Rydym yn dilyn ei daith ysbrydoledig i fod yn wleidydd a sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS). O'r pwll glo i Dŷ'r Cyffredin, gallwch chi ddysgu mwy am ei awydd cryf i helpu eraill. Heb os, mae'n stori sy'n pwysleisio'r pwysigrwydd o ddilyn eich breuddwydion!

Cofiwch fod y llyfrau ar gael yn ddigidol ar ffurf e-lyfrau hefyd! Ewch i **www.gwales.com** am fwy o wybodaeth.






# Cwestiynau a phwyntiau i sbarduno trafodaeth

- Beth wnaethoch chi ei fwynhau fwyaf am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Beth wnaethoch chi ddim ei fwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad yn y llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Beth hoffech chi ei newid am y llyfr a pham? Sut basech chi'n ei newid?
- Beth yw eich barn chi am glawr y llyfr?
- Pa gwestiynau oedd gennych chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Pa gwestiynau sydd gennych chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Disgrifiwch y llyfr mewn tri gair.
- Petaech chi'n cwrdd â'r awdur, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddo neu iddi?
- Ydych chi'n credu bod y teitl yn gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fyddech chi'n galw'r llyfr?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha ffordd?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fasech chi'n castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Yn eich barn chi, fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio arni? Ym mha ffordd?
- Petai tri chopi o'r llyfr gennych i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fasech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- Gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma?
- Beth yw eich barn chi ar y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?
- Oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?












# Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

*Dyniaethau,*
*Iaith a Llythrennedd*
*a Chyfathrebu,*
*Celfyddydau*

## Dros y Môr a'r Mynyddoedd – Straeon Merched Dewr y Celtiaid




Beth am ...

### Ymchwilio

Defnyddiwch y we, mapiau neu lyfrau i gael hyd i wybodaeth.

- Pa rai yw'r gwledydd Celtaidd?
- Ble maen nhw yn y byd?
- Sut mae eu baneri yn edrych?
- Beth sy'n gyffredin rhyngddynt?

### Ysgrifennu

**Mae'r rhain yn straeon am ferched dewr y Celtiaid.**

Pa ferched dewr ydych chi'n gwybod amdanynt? Beth wnaethon nhw oedd yn ddewr?

Gwnewch restr ohonynt, e.e.:

1. **Rosa Parks**
   – gwrthod symud o'i sedd ar y bws.
2. **Eileen Beasley**
   – gwrthod talu bil uniaith Saesneg gan y cyngor.

### Creu

**Edrychwch ar y map mae Elin Manon, darlunydd y llyfr, wedi ei greu ar ddechrau'r llyfr.**

Pa nodweddion o hanes, celf, patrymau a chwedlau'r Celtiaid sydd yma?

Beth am ddarlunio eich map eich hun o'r gwledydd a'r chwedlau Celtaidd?

Dyma rai syniadau am gynnwys: anifeiliaid, pobl, ysgrifen, patrymau, adar, tonnau, mynyddoedd, planhigion, offerynnau cerdd, creaduriaid hudol.

### Trafod

**Beth yw chwedl?**

Beth sy'n gyffredin rhwng y gwahanol chwedlau? Pa chwedlau ydych chi'n eu gwybod? Sut gymeriadau sydd mewn chwedl? Pa bethau hudol sy'n digwydd mewn chwedlau?

Beth am ysgrifennu eich chwedl eich hun?
Beth am ddarllen mwy o chwedlau?
Beth am berfformio darn o chwedl?




# Beth am …? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

*Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Celfyddydau Mynegiannol a Iechyd a Lles*

**Dwi eisiau bod yn Ddeinosor**
gan Huw Aaron

## Beth am …

### Ysgrifennu

Beth am wneud rhestr o'r holl bethau mae'r bachgen eisiau bod?

Pa sgiliau oedd eu hangen i fod yn un o'r rhain?

1. Deinosor = *bod yn fawr*
2. Sombi hyll = *cael croen afiach*




### Perfformio

Beth am actio rhai o'r pethau mae'r bachgen eisiau bod?

- Sut fyddai sombi hyll yn cerdded?
- Sut fyddai ninja slei yn symud?
- Sut wyneb fyddai gan ieti gwyllt?


### Trafod

> ***'Mi rydw i yn hoffi***
> ***Beth wela i yn y drych.***
> ***Fi yw'r unig 'fi' sy'n bod –***
> ***Ac mae hynny wir yn WYCH.'***

Beth sy'n eich gwneud chi'n wych ac yn unigryw?

### Creu

Beth am greu llun o'r hyn rydych chi'n ei weld yn y drych ac sy'n eich gwneud yn wych?













# Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

**Nye**
gan Manon Steffan Ros




## Beth am ...

### Trafod

Edrychwch ar y llun o Nye yn edrych ar y car ar dudalen 7 ac 8...

- Sut fywyd oedd gan y bobl ar ochr chwith y llun? Pam?
- Sut fywyd oedd gan y bobl ar ochr dde y llun? Pam?
- Beth sy'n mynd drwy feddwl y bachgen Nye yn y llun yma, tybed?

### Ymchwilio

Edrychwch ar y llun o'r pwll glo ar dudalen 11/12.

Roedd Nye wedi gorfod mynd i weithio yn y pwll glo pan oedd yn 13 oed.

Edrychwch ar y we neu mewn llyfr i gael hyd i fwy o wybodaeth am sut le oedd pwll glo a pha fath o waith fyddai'n rhaid i Nye ei wneud.

### Ysgrifennu

**Sefydlodd Aneurin Bevan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS) ym 1948.**

Gwnewch restr o'r holl ffyrdd y mae'r Gwasanaeth Iechyd wedi eich helpu chi, e.e.

1. Gofal mam a babi – cyn, yn ystod ac ar ôl i chi gael eich geni.
2. Meddyg wedi rhoi ffisig gwrthfiotig i chi pan oeddech yn sâl.

### Dylunio

Cofeb Blaenau Gwent:
blaenau-gwent.gov.uk/cy/ymwelwyr/atyniadau/cerrig-coffa-aneurin-bevan/

Cofeb Caerdydd:
bbc.co.uk/cymrufyw/38642020

Mae'r cofebau hyn wedi eu dylunio i gofio am Aneurin Bevan a'i waith pwysig gyda'r GIG. Beth yw eich barn am y cofebau hyn? Oes cofebau eraill yn eich ardal chi? Pwy sy'n haeddu cofeb?

**Dyluniwch eich cofeb eich hun i Aneurin Bevan.**

Ble fydd eich cofeb yn sefyll? Sut fydd yn edrych? Pa ddeunyddiau fydd yn eich cofeb?

### Meysydd Dysgu a Phrofiad


*Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a Iechyd a Lles, Celfyddydau Mynegiannol*

# Dros y Môr a'r Mynyddoedd













**Ychydig bach o wybodaeth am y llyfr ...**

*Mae'r llyfr yn gasgliad swmpus o chwedlau o'r gwledydd Celtaidd, o Iwerddon draw at Galisia, gyda merched cryf a dewr wrth eu calon. Ceir amryw o gymeriadau, tirweddau ac elfennau ym mhob chwedl, sy'n cael ei adlewyrchu yn y darluniau sy'n llenwi pob tudalen. Addaswyd y chwedlau i'r Gymraeg gan Myrddin ap Dafydd, Angharad Tomos, Haf Llewelyn, Mari George, Aneirin Karadog, Anni Llŷn a Branwen Williams.*

***Dyma beth ddwedodd yr awduron Myrddin ap Dafydd, Mari George a Haf Llewelyn ...***

### Sut brofiad oedd ysgrifennu stori i'r casgliad?

**Haf:** Roedd o'n brofiad diddorol iawn. Mae bob amser yn braf cael cydweithio gyda phobl eraill. Rwy'n arbennig o hoff o ddarluniau Elin Manon.

**Myrddin:** Roedd yr ymchwilio yn ddifyr, yn gyfle i ddysgu mwy am sawl gwlad. Gan fod cynllun y llyfr yn golygu bod llun ar bob tudalen ddwbwl, roedd rhaid bod yn llym gyda nifer y geiriau. Mae gennym awduron Cymraeg all adrodd straeon gystal ag unrhyw wlad – felly dyna gyfuniad sy'n sail i lyfr arbennig. Roedd gennym batrwm pendant – 15 o straeon o 7 gwlad Geltaidd, ond yn fwy na dim, efallai, roeddan ni'n awyddus i gael chwedlau am ferched dewr a chofiadwy – ac mae digon o'r rheiny yn y traddodiad Celtaidd.

**Mari:** Roeddwn wrth fy modd yn cael y cyfle i wneud i'r merched yn fy straeon ymddangos yn fwy dewr a hyderus ac yn fodlon ymladd yn erbyn eu ffawd. Roedd eu hailysgrifennu wedi gwneud i mi ddod i adnabod y cymeriadau ychydig yn well.

### Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

**Haf:** *Pwt a Moi.*

**Myrddin:** *Trioleg Twm Siôn Cati* gan T. Llew Jones.

**Mari:** *The Lion, the Witch and the Wardrobe* gan C. S. Lewis.

### Beth yw eich diddordebau?

**Haf:** Darllen, cerdded, ac mi faswn i'n hoffi medru gwehyddu gyda gwiail a gwneud pob math o fasgedi.


**Myrddin:** Erbyn hyn: darllen, garddio, crwydro, beicio, gweithgareddau gyda'r wyrion.

**Mari:** Ymarfer corff, cerdded a barddoni.

### O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

**Haf:** Pob mathau o lefydd. Weithiau mi wna i glywed sgwrs rhywun a meddwl, wel dyna ddiddorol, neu glywed hanes arbennig. Hefyd dwi'n ddarllenydd brwd ac yn cael llawer o syniadau rhwng cloriau.

# Dros y Môr a'r Mynyddoedd










**Myrddin:** Gwrando ar bobl a darllen straeon hanes.

**Mari:** Profiadau personol a darllen llyfrau.

### Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

**Mari:** Darllenwch. A daliwch ati, hyd yn oed os ydych yn meddwl nad yw eich gwaith yn ddigon da. Cymerwch unrhyw feirniadaeth fel ysgogiad i wella.

**Myrddin:** Sgwennu unwaith ac yna ailsgwennu'r cyfan eto.

**Haf:** Dos amdani. Mae'n syniad da rhoi cynnig ar gystadlu – mae'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc yn cynnal eisteddfodau sy'n gyfle gwych i gychwyn ysgrifennu a chael ymateb beirniaid. Mae cystadleuaeth fel yma yn help mawr oherwydd fe gei di feirniadaeth heb i neb wybod mai ti sydd wedi ysgrifennu.

### Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?

**Mari:** Y peth gorau yw creu rhywbeth yn y gobaith y bydd pobl yn mwynhau ei ddarllen. Y peth gwaethaf yw'r dudalen wag.

**Myrddin:** Clywed bod rhywun yn darllen eich gwaith.

**Haf:** Cael ymateb pobl i dy waith yw'r peth gorau – mae unrhyw ymateb yn well na dim byd!

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
**Myrddin:** *Y Ffordd Beryglus.*

**Hoff gymeriad o lyfr?**
**Mari:** Martha yn *Martha, Jac a Sianco*.

**Hoff le?**
**Haf:** Cwm Nantcol.

**Hoff fwyd?**
**Myrddin:** Bwyd môr.


**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
**Mari:** Cyfres *Mad Men*.

**Hoff air?**
**Haf:** Heulwen.

**Y superpower fyddech chi'n ei ddewis?**
**Mari:** Gallu creu mwy o amser.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
**Haf:** Instagram ... ond dwi ddim wir yn hoff o'r un ohonynt!

**Top tip i ddarpar awduron:**
**Myrddin:** Sgwennwch gan ddefnyddio pensel yn gyntaf.
**Mari:** Darllenwch.
**Haf:** Darllenwch – pob dim!






Mari


Myrddin


Haf


CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES


# Luned Aaron












**Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr.**
Bachgen sydd eisiau bod yn bob math o bethau rhyfeddol sydd yn *Dwi Eisiau Bod yn Ddeinosor*, ond erbyn y diwedd, mae'n derbyn pwy ydi o.

**Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?**
Braf iawn. Mi gafon ni dipyn o hwyl ein dau yn bownsio syniadau yn ôl ac ymlaen. Mae hi wastad yn hwyl gweld Huw yn dehongli fy ngeiriau yn ei luniau.

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Bangor.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Gynradd y Garnedd ac Ysgol Uwchradd Tryfan.

**Beth oeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
**Hoffi:** Cerdded i Fangor Uchaf amser cinio i nôl *chips* a *sweet 'n sour sauce* efo'm ffrindiau pan o'n i'n ddigon hen. Ro'n i wrth fy modd yn y gwersi Celf a Drama.
**Casáu:** Gorfod rhedeg rownd y cae yn y glaw yn y gwersi chwaraeon!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?**
Awdur. Yna actores ... wedyn awdur eto!

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?**
Un ohonyn nhw oedd *Lleuad yn Olau* gan T. Llew Jones gyda lluniau anhygoel Jac Jones. Dwi wedi prynu copïau ar gyfer fy mhlant.

**Beth yw eich diddordebau?**
Darllen, ffilmiau, crefftau a ffotograffiaeth.


**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Dawnsio'n wirion efo'r teulu yn y gegin.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Diffyg gofal o'r hen fyd yma.

**Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Roedd cael cyfleoedd i gwrdd ag awduron fel Angharad Tomos a T. Llew Jones wrth i mi dyfu i fyny yn ysbrydoliaeth. Ac roedd gweld Dad yn gweithio fel golygydd ac awdur llawrydd am gyfnod yn dangos i mi o oedran ifanc fod creu gyrfa o ysgrifennu yn bosib. Dwi'n cofio'r diweddar ddramodydd Meic Povey yn siarad gyda ni fel myfyrwyr Lefel A Drama am ei brosesau gweithio. Mae'n bosib mai dyna pryd y dechreuais i feddwl o ddifri am y posibilrwydd o wneud gyrfa o ysgrifennu.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Pethau bach bob dydd sy'n sbarduno'r dychymyg fel arfer. O ran ysgrifennu yn benodol ar gyfer plant, mae dod yn rhiant wedi bod yn sbardun creadigol enfawr.

# Luned Aaron

















**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Mae byd natur yn thema sy'n fy sbarduno'n aml. Mae manylion dyddiol byd plant yn sbardun hefyd.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Darllenwch, darllenwch, darllenwch! A darllenwch y llyfrau sy'n eich diddori chi. Mae'n syniad rhoi geiriau ar bapur a nodi syniadau pan maen nhw'n taro, heb boeni am gywirdeb iaith a ballu ar y cychwyn. Buan mae darn o waith yn datblygu wrth roi'r amser iddo. Mi fyddwn i hefyd yn annog unrhyw un sy'n hoffi ysgrifennu i gadw dyddiadur – mae'n arfer dwi wedi ei chadw ers o'n i'n ddeg oed.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
**Y peth gorau:** Gallu gweithio yn unrhyw le yn y byd (fwy neu lai!).
**Y peth gwaethaf:** Anodd meddwl, a deud y gwir. Pan fo diogi'n taro a'r geiriau ddim yn dod yn rhwydd, am wn i.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Lleuad yn Olau* gan T. Llew Jones a Jac Jones.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Roedd Blodeuwedd, yr ymgyrchydd iaith yn y nofel *Yma o Hyd* gan Angharad Tomos, yn dipyn o arwres i mi pan oeddwn i'n ifanc.

**Hoff le?**
Traethau Gŵyr.

**Hoff fwyd?**
Thai.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
Dwi'n hoff o gyfresi comedi, yn enwedig *The Flight of the Conchords*. Y gyfres gomedi *Detectorists* ydi'r ffefryn ar hyn o bryd.

**Hoff air?**
Dilyffethair.

**Y superpower fyddech chi'n ei ddewis?**
Gallu peidio cysgu er mwyn cael mwy o amser!

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Gweld fy mhlant yn cael eu diddanu.


**Swydd ddelfrydol tasech chi ddim yn awdur?**
Ffotograffydd.

**Top tip i ddarpar awduron:**
Peidiwch bod ofn cystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol – mae beirniadaeth neu lwyddiant yn gallu bod yn hwb ac yn ysgogiad i ddal ati.

# Manon Steffan Ros















**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Ges i 'ngeni yn Rhiwlas, pentref bach yn y tir uchel yn ymyl Bethesda.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Gynradd Rhiwlas ac Ysgol Dyffryn Ogwen, a dwi'n ddiolchgar iawn 'mod i wedi cael mynd i ysgolion mor wych.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i'n hoffi'r rhan fwyaf o bethau am yr ysgol – gweld fy ffrindiau, y gwaith darllen a sgwennu, a'r holl hwyl oeddwn i'n ei gael! Ond do'n i ddim yn hoff iawn o wersi ymarfer corff na mathemateg (sy'n drueni, achos dwi'n mwynhau'r rheiny rŵan).

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?**
Awdur! Ro'n i'n caru llyfrau erioed, ac yn licio meddwl am fy straeon bach fy hun, ond doeddwn i ddim yn meddwl fod bod yn awdur yn job go iawn. Dwi'n ddiolchgar iawn, iawn bob dydd 'mod i'n awdur erbyn hyn, y job ora' erioed!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Roedd gen i athrawes wych iawn ym Mlynyddoedd 5 a 6, sef Gwenno Jones, ac roedd y llyfrau roedd hi'n eu darllen i ni wastad yn dal fy nychymyg. Dwi'n benodol yn cofio *O'r Tywyllwch* gan Mair Wynn Hughes a *The Iron Man* gan Ted Hughes. Ond dwi'n meddwl mai fy hoff lyfr pan oeddwn i'n blentyn ydi fy hoff lyfr i hyd heddiw, sef *Boy* gan Roald Dahl. Dwi'n meddwl y byd o'r llyfr yna.

**Beth yw eich diddordebau?**
Dwi wrth fy modd yn darllen, wrth gwrs, ond dwi'n licio gwylio pethau ar y teledu hefyd, yn aml ryw rwtsh ar YouTube! Mae coginio'n ddiddordeb mawr gen i hefyd, a phêl-droed. Dwi'n ffan mawr o LFC – tîm Lerpwl – ac yn licio mynd i Anfield pan ga i gyfle!

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Cerdded! Dwi wrth fy modd yn mynd am dro ar benwythnos, ac yn aml dwi'n cael syniadau am straeon wrth grwydro'r mynyddoedd neu goedwigoedd. Mae fy meibion yn fy ngwneud i'n hapus iawn, iawn hefyd. Maen nhw'n gwmni mor dda, yn ddigri ac yn ddifyr, a dwi'n mwynhau sgwrsio efo nhw am eu bywydau a'r pethau sydd ar eu meddyliau nhw.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Annhegwch. Os oes 'na bobol sydd ddim yn cael eu trin yn iawn, neu bobol yn cael eu trin yn wahanol i'w gilydd. Ond dwi ddim yn dda iawn am fod yn flin, dwi'n llawer mwy tebygol o fod yn drist na gwylltio.


**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Dwi ddim yn cofio peidio meddwl am sgwennu, a dweud y gwir! Mae 'na straeon wedi bod yn fy mhen i erioed.

# Manon Steffan Ros








Ond dwi'n meddwl 'mod i wedi dechrau meddwl o ddifri am sgwennu straeon mewn llyfr pan ges i'r plant, am 'mod i eisiau sgwennu pethau iddyn nhw.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Bob man! Yn aml iawn wrth gerdded, neu o sgyrsiau dwi'n eu cael efo pobol, neu o bodlediadau neu raglenni radio dwi'n gwrando arnyn nhw. Dydi cael y syniad ddim yn broblem – mae gen i ormod! Y tric ydi penderfynu pa rai fydd yn gweithio fel llyfr.

**Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Dwi'n licio sgwennu am bobol ifanc, achos dwi'n meddwl ei fod o'n gyfnod diddorol, cyffrous ond anodd iawn mewn bywyd. Mae disgwyl i bobol ifanc ymddwyn yn aeddfed fel oedolion, ond does ganddyn nhw mo'r un rhyddid ag oedolion. Mae hynny'n teimlo braidd yn annheg i mi weithiau!

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Cofiwch fod pob awdur yn gweithio'n wahanol i'w gilydd, a does 'na ddim ffordd anghywir o adrodd stori. Mae rhai awduron yn gwneud cynllun pendant cyn sgwennu gair, a rhai eraill, fel fi, yn dechrau sgwennu heb syniad yn y byd beth fydd yn digwydd yn y llyfr. Peidiwch â phoeni am bethau felly ... a mwynhewch!

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau ydi'r ffaith 'mod i'n gwneud straeon drwy'r dydd, bob dydd! Y peth gwaethaf ydi 'mod i'n mynd braidd yn obsesiynol am waith ac felly weithiau'n aros i fyny tan yr oriau mân yn sgwennu ... ond dwi fel cadach y diwrnod wedyn!

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Boy* gan Roald Dahl ac *O'r Tywyllwch* gan Mair Wynn Hughes.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Mae'n anodd iawn dewis ond dwi'n edmygu Efa o gyfres y Melanai gan Bethan Gwanas yn fawr.

**Hoff fwyd?**
Bounties, madarch a bresych. Dim efo'i gilydd!

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Jurassic Park*.

**Hoff air?**
Trugaredd.

**Y superpower fyddech chi'n ei ddewis?**
Dwi'n meddwl 'swn i wir yn mwynhau'r teimlad o allu hedfan.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Twitter a TikTok.


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Jôcs gwael Dad.

**Swydd ddelfrydol tasech chi ddim yn awdur?**
Bod yn awdur YDI fy swydd ddelfrydol ond fel arall, 'swn i'n licio bod yn hanesydd.

**Top tip i ddarpar awduron:**
SGWENNWCH!

# Elin Manon












**Sut brofiad oedd darlunio'r llyfr?**
Pan o'n i'n fyfywraig ac yn dechrau meddwl am y math o brosiectau yr hoffwn i weithio arnyn nhw ar ôl graddio, un ohonyn nhw oedd darlunio llyfr Cymraeg am straeon gwerin, gydag elfen o fyd natur ynddyn nhw. Felly pan ges i'r cyfle i weithio ar y llyfr hwn wnes i fynd amdani, a dwi wedi joio dysgu am ragor o chwedlau o'r gwledydd Celtaidd.

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Ces i fy ngeni a'm magu yng Nghaerdydd. Yna symudais i Gernyw i astudio ym Mhrifysgol Falmouth yn 2017, a dwi heb adael ers hynny.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Gynradd Mynydd Bychan ac wedyn i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Yna wnes i ddilyn cwrs Celf yn Academi Celfyddydau Caerdydd, cyn mynd ymlaen i astudio ar gyfer gradd mewn darlunio ym Mhrifysgol Falmouth.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Fy hoff beth yn yr ysgol oedd yr adegau creadigol yn y gwersi (sydd ddim yn syndod!). Dwi'n cofio cael ein rhannu'n grwpiau yn y dosbarth i greu tapestri i ddangos chwedl Branwen ferch Llŷr. Yr hyn ro'n i'n ei gasáu yn yr ysgol uwchradd oedd astudio mathemateg a gwyddoniaeth – a dwi'n dal ddim yn eu hoffi!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?**
Pan o'n i'n iau roedd yna nifer o bethau ro'n i eisiau bod – archeolegydd, cynllunydd tai, hanesydd, artist, ymysg nifer o bethau eraill. Roedd celf a chreadigrwydd yn bethau oedd wastad yn fy niddori, felly does dim syndod i mi ddewis gyrfa yn y maes hwnnw.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
*The Mousehole Cat* gan Antonia Barber a Nicola Bayley.

**Beth yw eich diddordebau?**
Darlunio, canu, chwarae gitâr, nofio, dringo, dysgu mwy am fyd natur a bywyd gwyllt, ymweld â safleoedd hynafol a dysgu mwy amdanyn nhw.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Mynd am dro ar hyd yr arfordir neu yng nghefn gwlad, yn sylwi ar fyd natur o'm hamgylch a'r hen olion sy'n dal straeon y tir. Nofio yn y môr (unrhyw adeg pan dwi'n teimlo dan straen neu'n isel, mae hyn wastad yn helpu!). Canu a chwarae cerddoriaeth gyda fy ffrindiau.


**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Pobl hunanol ac anghwrtais, yn enwedig y rhai sy mewn sefyllfa o bŵer a braint neu gyfoeth.

**Pryd ddechreusoch chi feddwl am ddarlunio?**
Ers 'mod i'n cofio – ers pan o'n i'n blentyn, yr holl ffordd drwy'r ysgol hyd at heddiw. Mae angen i mi ddweud 'diolch' i fy rhieni am fy annog i gymryd y pwnc o ddifri yn yr ysgol uwchradd, a'i ddewis fel pwnc i'w astudio yn y brifysgol, ac yna'i ddilyn fel gyrfa. Does dim llawer o bwyslais ar gelf fel pwnc mewn nifer o ysgolion. Dyw'r pwnc ddim yn cael ei gymryd o ddifri, ac nid oes neb wir yn gweld nac yn deall pa mor bwysig yw celf yn ein byd ni. Ystyriwch ffilmiau, llyfrau, gemau, dodrefn, pecynnau, hysbysebion, beth mae pobl yn dewis ei roi ar y wal – mae'r cyfan wedi cael ei greu gan artistiaid, darlunwyr a



# Elin Manon














dylunwyr. Mae celf wedi bodoli yn ein cymdeithas ers i bobl ddechrau paentio ar waliau ogofâu filoedd o flynyddoedd yn ôl. Pryd wnaeth cymdeithas golli golwg ar ba mor hanfodol yw celf a darlunwyr?

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Byd natur, straeon gwerin a straeon mae'r wlad ffisegol ei hun yn eu cynnig.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Byd natur, bywyd gwyllt, y math sydd â chysylltiadau y medrwch ddod o hyd iddyn nhw yn y tirweddau yma. Hefyd, straeon gwerin a thraddodiadau.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio darlunio?**
Peidiwch â theimlo bod rhaid gosod eich hun mewn rhyw fath o focs a rhoi pwysau arnoch chi'ch hun i ddod o hyd i'ch steil. Gadewch amser i arbrofi ac i ymgolli yn yr hyn sy'n eich ysbrydoli. Cofiwch y bydd eich ffordd o weithio a'ch steil yn datblygu dros gyfnod o amser – blynyddoedd, hyd yn oed.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn ddarlunydd?**
Y peth gorau yw fy mod i'n gwneud creu gyrfa mewn maes dwi'n ei garu! Taswn i'n troi at yr Elin ro'n i bum mlynedd yn ôl a mwy, a sôn am y math o brosiectau dwi wedi bod yn gweithio arnyn nhw a sut dwi'n gwneud hyn fel gyrfa, dwi ddim yn meddwl y byddai hi'n fy nghredu! Y peth gwaethaf am fy ngyrfa, efallai, yw oherwydd fy mod i'n ddarlunydd llawrydd, mae yna wastad elfen o ansicrwydd. Dwi ddim yn gwybod pryd yn union bydd gwaith yn dod, os o gwbl, a dwi ddim yn derbyn cyflog cyson bob mis. Ond hyd yn hyn dwi wedi bod yn ffodus iawn gyda'r gwaith dwi wedi ei dderbyn gan nifer o bobl, cyhoeddwyr a chwmnïau, a dwi wedi joio gweithio gyda phob un.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*The Mousehole Cat.*

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Lyra o *His Dark Materials* gan Philip Pullman.

**Hoff le?**
Mae yna nifer o lefydd hudolus dwi wedi ymweld â nhw – ucheldiroedd yr Alban a gorllewin Iwerddon, ymysg llefydd eraill. Ac arfordir sir Benfro – wnes i dreulio llawer o fy mhlentyndod yna.

**Hoff fwyd?**
Humus.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Song of the Sea* gan Cartoon Saloon.

**Hoff air?**
Crempog.

**Y superpower fyddech chi'n ei ddewis?**
Telegludo a gweld y byd, heb boeni am gostau teithio nac effaith y daith ar ein hinsawdd.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Bod yn *cheesy*, ffrindiau, mynd am dro, canu, teulu.

**Swydd ddelfrydol tasech chi ddim yn awdur?**
Rhywbeth yn ymwneud â byd natur a gwarchodaeth, ond does gen i ddim graddau addas ar eu cyfer felly byddai hynny'n anodd!

**Top tip i ddarpar ddarlunwyr:**
Os ydych am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel Instagram i dangos eich gwaith, peidiwch â meddwl bod rhaid gwneud gwaith i'w rannu er mwyn plesio pobl! Crëwch i chi'ch hun a neb arall (oni bai eich bod yn gwneud gwaith comisiwn, wrth gwrs).

# Huw Aaron






**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Yr Uplands, Abertawe.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Bryn-y-môr, wedyn Ysgol Gyfun Gŵyr.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
**Hoffi**: chwarae pêl-fasged gyda ffrindiau rhwng pob gwers.
**Casáu:** ein gwisg ysgol frown a du. *Come on* – BROWN a DU?

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?**
Rhywbeth ym myd animeiddio, neu greu gemau cyfrifiadur.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Yng Ngwlad y Pethau Gwyllt, Redwall, *A Wizard of Earthsea*, *Lord of the Rings* – unrhyw beth mewn byd ffantasïol rhyfeddol.

**Beth yw eich diddordebau?**
Darllen, chware gemau bwrdd, byd natur, gwylio rygbi.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
'Film night' nos Wener gyda'r teulu a bowlen fawr o bopcorn!



**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Pobl yn torri coed i lawr.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Ro'n i'n ysgrifennu straeon a gwneud lluniau o hyd pan o'n i'n blentyn, ond byth yn meddwl ei fod e'n rhywbeth baswn i'n gallu ei wneud fel job go iawn. Ond wedi i mi weithio mewn job 'go iawn' oedd yn ddiflas am dipyn, dyma fi'n dechrau chwilio am bethau mwy diddorol i'w gwneud – fel creu lluniau a straeon!

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Gan Xrrjf, y coblyn sy'n byw yn nrôr gwaelod fy nesg.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Dim yn benodol – stori dda sy'n bwysig, ac mae'r pwnc neu'r thema yn dod wedyn. Ond mi ydw i'n hoffi straeon gyda chymysgedd da o ryfeddu, hiwmor a chalon.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Hanfod ysgrifennu stori yw creu problem i'ch cymeriad, ac wedyn ei datrys. Po fwyaf yw'r broblem, gorau yw'r stori. O fwlis yn yr ysgol i alien mawr porffor sydd eisiau dinistrio hanner y bydysawd – gweld y broblem o safbwynt eich cymeriad sy'n bwysig.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau: ry'ch chi'n troi syniad anweledig sydd ddim ond yn bodoli y tu mewn i'ch brên wiyrd chi yn BETH go iawn sydd, gobeithio, yn gwneud pobl eraill yn hapus.
Y peth gwaethaf: dyfalbarhau pan mae'ch hyder yn y syniad cychwynnol yn pylu, sy'n digwydd i fi tua hanner ffordd trwy bob un prosiect.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Redwall* gan Brian Jacques.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Obelix, o gyfres Asterix.

**Hoff le?**
Gŵyr.

**Hoff fwyd?**
Pwdin siocled a hufen iâ.
Hoff ffilm/rhaglen deledu?
Unrhyw beth gan Studio Ghibli.

**Hoff air?**
Bondigrybwyll.

**Y superpower fyddech chi'n ei ddewis?**
Byddai infinity gauntlet yn cŵl, diolch.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
YouTube.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Curo fy chwaer yn Wordle.


**Swydd ddelfrydol tasech chi ddim yn awdur?**
Dylunio gemau bwrdd a chreu llyfrau sili i blant!

**Top tip i ddarpar awduron:**
Mae gorffenedig yn well na pherffaith.

# Valériane Leblond








**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Yn Angers, yn Ffrainc.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Yn Angers hefyd.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roeddwn wrth fy modd yn yr ysgol ac yn cael dysgu pethau, yn enwedig llenyddiaeth, hanes a bioleg.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?**
Rhywbeth creadigol, fel awdur, artist neu athrawes!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Roeddwn i'n hoff iawn o *Ox-Cart Man* gan Donald Hall a Barbara Cooney, stori am deulu'n byw yn y wlad yn yr Unol Daleithiau yn y 19eg ganrif. Roedd y teulu'n cynhyrchu pob dim oedd ei angen arnyn nhw.

**Beth yw eich diddordebau?**
Rwy'n hoffi darllen, gwylio ffilmiau, darlunio, garddio ...

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Gweld fy nheulu yn hapus.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Annhegwch.

**Pryd ddechreusoch chi feddwl am ddarlunio?**
Ers pan o'n i'n blentyn bach – dwi wastad wedi mwynhau tynnu lluniau a phaentio.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
O bob man o'm cwmpas i: straeon dwi'n eu clywed, llyfrau dwi'n eu darllen, pethau dwi'n eu gweld wrth fynd am dro.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Dwi'n hoffi straeon sydd yn y gorffennol.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio darlunio?**
Os wyt ti'n mwynhau tynnu lluniau, gwna gymaint ag y medri heb boeni am ddim byd arall. Bydd dy arddull arbennig di'n datblygu gydag amser.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn ddarlunydd?**
Mae'n anhygoel cael cydweithio gydag awduron o fri, a thrio ychwanegu at stori fendigedig trwy greu lluniau. Ond weithiau does dim digon o amser a dwi ddim yn gallu gweithio ar y lluniau gymaint ag yr hoffwn i oherwydd y *deadlines*.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Ox-Cart Man* gan Donald Hall a Barbara Cooney.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Max yn *Where the Wild Things Are*.

**Hoff le?**
Grisiau tu allan i dŷ fy mam-gu ar ddiwrnod o haul.

**Hoff fwyd?**
Tarten lemon meringue.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*WALL-E*.

**Hoff air?**
*Nuage* ('cwmwl' yn Ffrangeg).

**Y superpower fyddech chi'n ei ddewis?**
Teleportio efallai, neu allu chwarae offeryn cerdd!


**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Fy mhlant.

**Swydd ddelfrydol tasech chi ddim yn awdur?**
Awdur, neu athrawes efallai.

**Top tip i ddarpar artistiaid:**
Darlunia gymaint ag y medri heb boeni am yrfa a barn pobl eraill.

# Y Beirniaid












## Morgan Dafydd

*Cadeirydd y Panel*

A bod yn hollol onest, doeddwn i ddim yn ddarllenydd mawr pan oeddwn i'n ifanc, ond roeddwn i'n mwynhau edrych ar lyfrau ffeithiol. Erbyn hyn dwi'n meddwl ei bod hi'n hynod o bwysig fod plant yn dewis y llyfrau iawn iddyn nhw ar gyfer darllen er pleser.

Mae wir yn fraint cael fy ngwahodd i fod yn feirniad ar gyfer gwobr mor bwysig â Gwobr Tir na n-Og. Mae'n ffordd wych o roi cyhoeddusrwydd i lyfrau newydd yn ogystal â dod â thipyn o sylw i'r byd llenyddiaeth plant ehangach yng Nghymru.



## Sara Yassine

*Cyn-athrawes*

Dwi wastad wedi bod yn hoff o ddarllen ac roedd gen i ddychymyg byw fel plentyn – rhywbeth a oedd yn bendant yn gysylltiedig â'r holl ddarllen. Os ydych chi'n dewis y llyfrau cywir, gallwch ddod yn gaeth iddyn nhw.

Mae'n fraint cael bod yn rhan o'r panel eleni. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at weld beth sydd ar gael i blant heddiw, a hefyd gweld yr hyn y collais allan arno – er, dwi'n siŵr bydda i'n mwynhau darllen lot ohonyn nhw fel oedolyn!



## Siôn Lloyd Edwards

*Myfyriwr Cymraeg*

Er fy mod yn Gymro i'r carn, mae'r diolch yn bennaf i Adran Gymraeg wych Ysgol Brynhyfryd am fy helpu i ddisgyn mewn cariad â llenyddiaeth Gymraeg. Yn fy amser hamdden rwyf wrth fy modd yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o chwaraeon – pêl-droed yn bennaf. Rwyf hefyd yn hoff o'r celfyddydau. Mae astudio'r Gymraeg yn Aberystwyth wedi agor fy llygaid i nifer o yrfaoedd ac wedi rhoi cyfle imi wthio fy ngalluoedd er mwyn cyflawni gwaith o'r safon uchaf.

Mae'n fraint cael bod yn rhan o'r panel beirniaid eleni, ac edrychaf ymlaen yn arw at ddarllen y llyfrau i gyd. Diolch am y croeso, a phob hwyl!



## Francesca Sciarrillo

*Llyfrbryf wnaeth weithio gyda gwasanaeth llyfrgelloedd ac sydd bellach yn Swyddog Hyrwyddo Darllen*

Heb os, dwi hapusaf pan fydd gen i lyfr yn fy llaw. I mi, mae'r byd yn lle disgleiriach oherwydd llyfrau a'r hapusrwydd maen nhw'n ei roi i'n bywydau.


Dysgais Gymraeg fel oedolyn ac mae llyfrau Cymraeg wedi bod yn allweddol i fi ar fy nhaith i ddysgu'r iaith. Dwi'n caru ein hiaith ni yma yng Nghymru ac wrth fy modd yn darllen straeon sydd wedi cael eu hysgrifennu yn yr iaith Gymraeg.

Felly, mae'n fraint wirioneddol i mi fod yn un o feirniaid gwobrau mawreddog Tir na n-Og – ac yn brofiad dwi'n gwybod y bydda i'n ei drysori am flynyddoedd i ddod.





Mae’n gyfrol hardd dros ben, a’r gwaith celf yn ychwanegu llawer ati.





Roedd y dimensiwn rhyngwladol yn apelio’n fawr at y beirniaid, ynghyd â’r ystod o ferched cryf a phenderfynol sy’n gymeriadau yn y straeon.

Braf oedd darllen am hen chwedlau gwahanol i’r arfer, ac roedd rhai, megis ‘Ker Is’, yn ein hatgoffa o rai o’n chwedlau ni yng Nghymru.





Roedd mwynhau llyfr efo tipyn o hiwmor yn donig ac yn chwa o awyr iach!




Mae'r gwaith arlunio yn lliwgar, yn glir, yn fodern ac yn drawiadol iawn.

Roedd y beirniaid i gyd yn hoff o'r neges, sef pwysigrwydd 'bod yn gyfforddus yn dy groen dy hun'.

Stori lawn empathi yw Nye.
Mae hanes Aneurin Bevan yn bwysig iawn i ni yma yng Nghymru, a'r GIG yn sefydliad sy'n cael ei drysori gymaint.




Roedd y ffaith fod y bachgen swil o Dredegar wedi cyflawni cymaint, er y nam ar ei leferydd, yn ysbrydoledig. Daeth hyn drosodd yn gelfydd drwy eiriau Manon Steffan Ros.

Mae arlunwaith Valériane Leblond yn hardd iawn, ac yn asio gyda'r eirfa i atgyfnerthu'r stori. Enghraifft dda o hyn yw'r llun ar y tudalennau olaf lle mae Nye yn edrych dros fro ei febyd.


# Tudalen Nodiadau






Defnyddiwch y dudalen hon ar gyfer unrhyw nodiadau hoffech eu hysgrifennu am y llyfrau.

*Llungopïwch y dudalen yma i bob adolygwr.*




☆☆☆☆☆





☆☆☆☆☆




☆☆☆☆☆

# Matrics Sgorio














Efallai bydd sgorio'r llyfrau yn eich helpu i benderfynu pa lyfr yw'r gorau yn eich barn chi.

| Llyfr | *Dros y Môr a'r Mynyddoedd* | *Dwi Eisiau Bod yn Ddeinosor* | *Nye* |
|---|---|---|---|
| **Clawr / Broliant** /5<br>Ydych chi'n hoffi'r clawr?<br>Ydi'r broliant yn eich denu i ddarllen y llyfr?<br>Ydi'r clawr yn eich denu? | | | |
| **Diwyg / Edrychiad** /5<br>Ydych chi'n hoffi'r darluniau yn y llyfr?<br>Ydi'r darluniau yn ychwanegu at y stori?<br>Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol.<br>Ydych chi'n hoffi ffont y geiriau?<br>Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol. | | | |
| **Arddull / Iaith** /5<br>Pa fath o iaith mae'r awdur wedi ei defnyddio? e.e. tafodiaith, disgrifiadau, odlau.<br>Wnaethoch chi ddysgu unrhyw eiriau newydd wrth ddarllen y llyfr?<br>Oedd yr iaith yn rhy hawdd neu'n rhy anodd?<br>Oeddech chi'n deall yr iaith?<br>Oedd yr iaith yn ddiddorol? | | | |
| **Cynnal diddordeb** /5<br>Wnaethoch chi fwynhau'r llyfr?<br>Beth oedd yn cynnal eich diddordeb? e.e. doniolwch, antur, cymeriadau, gwybodaeth<br>Oeddech chi'n awyddus i ddarllen y llyfr i gyd?<br>Ydi'r llyfr yn mynd i aros yn eich cof?<br>Ydi'r llyfr yn un gwreiddiol? | | | |
| **Cymeriadau** /5<br>Pa fath o gymeriadau oedd yn y llyfr?<br>Oedd y cymeriadau yn rhai diddorol/credadwy?<br>Sut fyddech chi'n disgrifio'r cymeriadau?<br>Oedd y cymeriadau yn apelio atoch?<br>Oeddech chi'n gallu uniaethu â'r cymeriadau? | | | |
| **Cyfanswm** /25 | | | |

# Cardiau Pleidleisio










Nawr eich bod chi wedi darllen a thrafod y llyfrau sydd ar restr fer gwobr Tir na n-Og 2023, dyma'ch cyfle chi i bleidleisio dros y llyfr gorau, yn eich barn chi. Rhowch X yn y bocs i nodi'ch enillydd chi.

---

**Dros y Môr a'r Mynyddoedd** ☐

**Dwi Eisiau Bod yn Ddeinosor** ☐

**Nye – Bywyd Angerddol Aneurin Bevan** ☐

---

**Dros y Môr a'r Mynyddoedd** ☐

**Dwi Eisiau Bod yn Ddeinosor** ☐

**Nye – Bywyd Angerddol Aneurin Bevan** ☐

---

**Dros y Môr a'r Mynyddoedd** ☐

**Dwi Eisiau Bod yn Ddeinosor** ☐


**Nye – Bywyd Angerddol Aneurin Bevan** ☐

---

# Chwilair










| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | B | S | C | M | U | T | N | W | D | A | R | Ll | E | N | G |
| W | C | I | Ff | L | S | H | P | H | B | Y | G | Y | A | W | D |
| D | S | O | H | A | F | O | Ll | D | A | T | S | F | P | L | U |
| U | F | P | B | G | I | P | Th | A | C | L | R | R | S | I | Ff |
| R | M | L | E | S | B | A | N | R | E | J | C | G | M | P | W |
| T | E | Y | U | N | Rh | Ff | C | L | A | W | R | E | A | N | F |
| M | G | F | N | Ch | N | D | T | U | M | Rh | A | Ll | E | L | W |
| W | L | R | D | E | C | O | Ll | N | A | U | Th | W | I | M | Y |
| Ll | Rh | A | I | G | S | Y | D | I | W | D | Y | S | G | U | Ll |
| J | Ff | U | N | Rh | F | A | T | O | Y | Ll | U | A | D | Ff | J |
| A | R | D | C | A | I | E | W | S | N | G | A | I | L | Ch | O |
| P | L | I | L | R | A | D | U | Ff | B | E | S | T | O | R | I |
| N | Th | E | E | D | Y | Y | R | J | W | H | Ll | U | A | H | S |
| A | I | M | C | Ll | O | T | U | D | A | L | E | N | I | G | P |
| L | Y | A | T | I | C | D | A | Rh | I | Ff | I | T | Y | W | F |
| C | E | N | S | P | W | U | H | B | Ll | Y | F | R | G | F | T |

**LLYFR**
**CYMERIAD**
**DARLLEN**
**CLAWR**
**DARLUNIO**
**AWDUR**

**LLYFRGELL**
**STORI**
**TUDALEN**
**PENNOD**
**DYSGU**
**SIOP LYFRAU**

2023

# Tir na n-Og

GWOBRAU • AWARDS

**Beth am rannu eich profiad cysgodi ar y cyfryngau cymdeithasol?**

Cofiwch dagio ni:
@LlyfrDaFabBooks
a defnyddiwch yr hashnodau:
#CaruDarllen
#TNNO2023
#CysgodiTNNO2023